OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 571 (Cy.49)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud	- -	*27 Chwefror 2007*
Yn dod i rym	- -	*28 Chwefror 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 32(9), 33(4), 43(7), 44(4) a 113(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 28 Chwefror 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran awdurdodau yng Nghymru.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2007.

(4) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Deddf 1992" ("*the 1992 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Cyfrifo anghenion cyllideb (awdurdodau bilio)

2. Mae adran 32 o Ddeddf 1992 yn effeithiol fel pe bai—

(a) yn is-adran (3)(a)(**3**), y geiriau "or relevant special grant" wedi'u hepgor; a

(b) ar ôl is-adran (12), yr is-adran ganlynol wedi'i mewnosod(**4**)—

"(12A) In this section and section 33 below—

(**1**) 1992 p.14; diwygiwyd adran 32(9) gan baragraff 4 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19).

(**2**) Trosglwyddwyd y pŵer i wneud rheoliadau o dan adrannau 32(9), 33(4), 43(7) a 44(4) o ran Cymru oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) Diwygiwyd adran 32(3)(a) gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol a Chronfeydd) 1994 (O.S. 1994/246) a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol a Chronfeydd) 1995 (O.S. 1995/234) ac mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol 2006—2007 gan reoliad 2(a) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/344 (Cy.41).

(**4**) Mewnosodwyd adran 32(12A) mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2006—2007 gan reoliad 2(b) o O.S. 2006/344 (Cy.41).

(a) references to sums payable for the financial year in respect of redistributed non-domestic rates are references to sums so payable in accordance with the Local Government Finance Report (No.1) 2007—2008 (Final Settlement — Councils) published by the National Assembly for Wales pursuant to section 84G(4) of the Local Government Finance Act 1988(**5**) on 21 December 2006; and

(b) references to sums payable for the financial year in respect of revenue support grant are references to sums so payable in accordance with that report.".

Cyfrifo swm sylfaenol y dreth gyngor (awdurdodau bilio)

3. Mae adran 33(1) o Ddeddf 1992 yn effeithiol fel pe bai'r geiriau "or relevant special grant" yn eitem P wedi'u hepgor(**6**).

Cyfrifo anghenion cyllideb (prif awdurdodau praeseptio)

4. Mae adran 43 o Ddeddf 1992 yn effeithiol fel pe bai—

(a) yn is-adran (3)(a)(i)(**7**)—

(i) y geiriau "relevant special grant" wedi'u hepgor; a

(ii) y geiriau "floor funding" wedi'u mewnosod o flaen "or police grant;" a

(b) ar ôl is-adran (6D) yr is-adrannau a ganlyn wedi'u mewnosod(**8**)—

"(6E) In this section and section 44 below—

(a) references to sums payable for the financial year in respect of redistributed non-domestic rates are references to sums so payable in accordance with the Local Government Finance Report (No.2) 2007—2008 (Final Settlement — Police Authorities) published by the National Assembly for Wales pursuant to section 84G(4) of the Local Government Finance Act 1988 on 30 January 2007; and

(b) references to sums payable for the financial year in respect of revenue support grant are references to sums so payable in accordance with that report.

(6F) In this section and section 44 below "floor funding" means grant payable to a major precepting authority by the Secretary of State in addition to the police grant referred to in subsection (6C).".

Cyfrifo swm sylfaenol y dreth (prif awdurdodau praeseptio)

5. Mae adran 44(1) o Ddeddf 1992(**9**) yn effeithiol fel pe bai yn eitem P—

(a) y geiriau "relevant special grant" wedi'u hepgor; a

(b) y geiriau "floor funding" wedi'u mewnosod o flaen "or police grant;".

(**5**) 1988 p.41; mewnosodwyd adran 84G gan Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26)

(**6**) Diwygiwyd adran 33(1) gan O.S. 1994/246 ac O.S. 1995/234 ac mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2006—2007 gan reoliad 3 o O.S. 2006/344 (Cy.41).

(**7**) Diwygiwyd adran 43(3)(a) gan O.S. 1994/246, O.S. 1995/234 ac mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2004—2005 gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/451 (Cy.42)) ac mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2006—2007 gan reoliad 4(a) o O.S. 2006/344 (Cy.41).

(**8**) Mewnosodwyd is-adrannau 43(6E) a (6F) mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2006—2007 gan reoliad 4(b) o O.S. 2006/344 (Cy.41).

(**9**) Diwygiwyd adran 44(1) gan O.S. 1994/246, O.S. 1995/234 ac mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2004—2005 gan O.S. 2004/451 (Cy.42) ac mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2006—2007 gan reoliad 5 o O.S. 2006/344 (Cy.41).